Adroddiad ar

# Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot

Y Ganolfan Ddinesig
Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
SA13 1PJ

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Cyd-destun y ddarpariaeth

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn o waith ieuenctid ychydig wythnosau cyn yr arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn yr awdurdod. Mae hyn yn galluogi'r negeseuon a'r gwerthusiadau o'r arolygiad o waith ieuenctid i lywio'r arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol ehangach, lle bo hynny'n berthnasol.

Mae Castell-nedd Port Talbot wedi'i lleoli yn ne Cymru, gan ymestyn dros bum cwm a dyma'r wythfed sir fwyaf poblog. Mae gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth o tua 142,898, gan gynnwys tua 25,046 o bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso gwasanaethau ieuenctid. O gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae gan Gastell-nedd Port Talbot gyfran gymharol uchel o bobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd ag incwm isel. Yn ôl cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) 2025, mae 8.4% o ddisgyblion Castell-nedd Port Talbot o grŵp ethnig lleiafrifol, sydd wedi cynyddu o 5.1% yn 2015. Mae Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot yn rhan o dîm Gwasanaethau Cymorth a Thrawsnewid yr awdurdod lleol yn y Gyfarwyddiaeth Addysg. Ei weledigaeth yw 'Annog a galluogi pobl ifanc i gael hwyl, cymryd rhan ym mhob cyfle sydd ar gael iddynt ac ennill y sgiliau sydd eu hangen i ddod yn oedolion hapus, iach, hyderus a bodlon o'u cymunedau. Adeg yr arolygiad, roedd y gwasanaeth ieuenctid yn cynnwys 47 aelod staff amser llawn a 69 aelod staff rhan-amser. Mae'r gwasanaeth yn darparu ystod o waith ieuenctid cyffredinol trwy glybiau ieuenctid ar draws yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwaith ieuenctid targedig ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed trwy nifer o ffrydiau gwaith, fel prosiectau Horizon, Legacy a Teuluoedd yn Gyntaf[1]. Mae gan y gwasanaeth ieuenctid gyllideb flynyddol o tua £2.4 miliwn, y daw tua thri chwarter ohoni o grantiau amrywiol. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn o waith ieuenctid ychydig wythnosau cyn yr arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn yr awdurdod. Mae hyn yn galluogi'r negeseuon a'r gwerthusiadau o'r arolygiad o waith ieuenctid i lywio'r arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol ehangach, lle bo hynny'n berthnasol.

---

[1] Horizons yw rhaglen ddi-dâl Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot, a ariennir gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sy'n cynnig hyfforddiant personol, gweithdai medrau achrededig a chymorth lles i bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET), i'w helpu i symud ymlaen i'r coleg, prentisiaethau neu waith. Mae prosiect Legacy yn cefnogi disgyblion Blwyddyn 11 y tu mewn a'r tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Mae'n gyfuniad o waith grŵp a chymorth un-i-un mewn ysgolion, prosiectau yn y gymuned leol, ymyriadau yn ystod gwyliau ysgol i'r rhai sydd wedi gadael Blwyddyn 11 nad ydynt yn sicr o'u cyrchfan, neu'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio ac mae'n cynnig cymorth cadw mewn cysylltiad i bobl ifanc ar ôl iddynt fynd i gyrchfan ôl-16.
Mae'r prosiect Teuluoedd yn Gyntaf yn wasanaeth ymyrryd ac atal cynnar, sydd wedi'i lunio i weithio â phobl ifanc a'u teuluoedd i atal problemau rhag gwaethygu i lefel lle byddai angen gwasanaeth statudol arnynt.

## Trosolwg

Mae pobl ifanc yn elwa ar ystod eang a chyfoethog o gyfleoedd gwaith ieuenctid sy'n hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol. Mae gweithwyr ieuenctid yn darparu amgylcheddau cynhwysol a chefnogol, lle gall pobl ifanc fagu hyder, mynegi eu hunain a datblygu medrau ar gyfer bywyd a gwaith. Mae ffocws cryf ar ddysgu a chyfranogiad pwrpasol yn sicrhau bod pobl ifanc yn ganolog i lunio'r gwasanaethau a gânt.

Mae llawer o bobl ifanc yn ennill medrau bywyd ymarferol trwy weithgareddau difyr fel cyllidebu, bwyta'n iach a choginio, gyda sesiynau'n defnyddio offer hygyrch fel ffriwyr aer. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i ddatblygu annibyniaeth a chefnogi lles. Mewn lleoliadau dwyieithog, mae pobl ifanc sy'n siarad Saesneg yn gwella eu medrau Cymraeg trwy dasgau rhyngweithiol, gan gynnwys gemau a choginio, gyda rhai ohonynt yn sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg.

Mae darpariaeth dargedig yn hynod effeithiol wrth gefnogi pobl ifanc fregus, gan gynnwys y rhai sydd wedi ymddieithrio rhag addysg neu sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Mae'r dysgwyr hyn yn manteisio ar lwybrau achrededig fel hylendid bwyd, ymwybyddiaeth o awtistiaeth a thystysgrif medrau adeiladu (CSCS), yn ogystal â chymwysterau academaidd gan gynnwys TGAU. Mae cymorth teilwredig yn galluogi pobl ifanc i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae pobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn elwa ar ddosbarthiadau Saesneg, anogaeth, arweiniad gyrfaoedd a chymorth i wneud ceisiadau i golegau.

Mae gwaith ieuenctid yng Nghastell-nedd Port Talbot yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu'r wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen i lywio heriau'r byd go iawn. Caiff y rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref eu cynorthwyo i ddeall gwasanaethau tai ac oedolion. Mae rhieni ifanc yn dysgu medrau magu plant ymarferol, gan hybu annibyniaeth a lles teuluol. Mae perthnasoedd cryf gweithwyr ieuenctid â phobl ifanc yn sail i'r dysgu hwn ac yn sicrhau ei fod yn ymateb i anghenion unigol.

Mae pobl ifanc yn mynegi eu hunain yn hyderus trwy brosiectau creadigol a chyfryngau digidol. Mae'r mentrau hyn fel ffilmiau, animeiddiadau a phodlediadau yn cynnig ffyrdd cynhwysol i archwilio hunaniaeth, codi ymwybyddiaeth o faterion pwysig a datblygu medrau ffilmio, golygu, cyflwyno a chydweithio. Mae prosiectau sy'n mynd i'r afael â phynciau fel gwahaniaethu, bwlio a hunaniaeth rhywedd yn arwain at allbynnau pwerus sy'n meithrin myfyrio a chysylltiad, yn enwedig ymhlith pobl ifanc sydd wedi ymgysylltu'n llai â dysgu traddodiadol.

Trwy'r gweithgareddau mynegiannol hyn, mae pobl ifanc hefyd yn datblygu llythrennedd emosiynol, chwilfrydedd a'r gallu i drafod a heriau rhagdybiaethau'n barchus. Mewn

gweithgareddau sydd wedi'u seilio ar realiti rhithwir, fel cyfweliadau ffug a phrofiadau cyfnewid cyrff, mae pobl ifanc yn dysgu i gyfathrebu'n effeithiol ac ystyried safbwyntiau gwrthwynebol, gan wella eu gallu i fynegi eu barn mewn modd pwyllgor a meddylgar.

Mae cyfranogiad wedi'i ymwreiddio ar draws y gwasanaeth. Mae pobl ifanc yn dylanwadu ar ddylunio gwasanaethau ar lefelau lleol a strategol trwy weithgareddau fel arolygon, byrddau graffiti a digwyddiadau ymgynghori fel 'Cinio a Gwrando'. Mae'r cyngor ieuenctid yn chwarae rhan flaenllaw mewn nodi a mynd i'r afael â materion. Er enghraifft, arweiniodd pryderon ynghylch cyffredinrwydd fepio at gynllun gweithredu amlasiantaeth a ddatblygwyd ar y cyd â phobl ifanc. Sicrhaodd eu cyfraniadau fod yr adnoddau a'r ymgyrchoedd a ddeilliodd o hyn wedi'u harwain gan bobl ifanc a'u bod yn berthnasol.

Mae gwerthoedd cynhwysol wrth wraidd arfer gwaith ieuenctid. Mae pobl ifanc yn dangos parch tuag at gefndiroedd, galluoedd a hunaniaethau gwahanol. Mewn grŵp LHDTC+, mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn trafodaethau meddylgar am hanes, cynrychiolaeth a hawliau, gan arwain at newidiadau pendant fel ffurflenni caniatâd sy'n sensitif i rywedd. Mae sesiynau gwaith ieuenctid yn meithrin amgylcheddau lle mae pobl ifanc yn myfyrio ar hunaniaeth ddiwylliannol a nodweddion gwarchodedig, gan gyfrannu at ddiwylliannau grŵp cynhwysol. Mae gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn croesawu pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mewn clybiau iaith, lleferydd a chyfathrebu, mae pobl ifanc yn magu hyder ac yn frwdfrydig ynghylch gwneud cais am rolau ar y cyngor ieuenctid.

Ar draws y gwasanaeth, mae pobl ifanc yn dylanwadu ar strategaethau lleol ac yn hybu tegwch. Maent yn datblygu adnoddau fel siartiau llif atal digartrefedd, sy'n cael eu defnyddio gan gyfoedion a gweithwyr proffesiynol, fel ei gilydd. Trwy waith ieuenctid, mae llawer yn teimlo'n fwy cadarnhaol amdanyn nhw'u hunain a'u dyfodol. Maent yn gosod nodau personol, yn cymryd rhan mewn dysgu myfyriol ac yn dwyn perchnogaeth o'u datblygiad.

Mae gweithwyr ieuenctid yn dra medrus wrth ymgysylltu â phobl ifanc a theilwra darpariaeth i'w hanghenion. Mae gweithgareddau'n greadigol, yn amrywiol ac wedi'u cynllunio'n dda, gan gynnwys digwyddiadau corfforol a digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar les, fel heriau beiciau smwddi a rhaglenni maeth yn yr ysgol. Mae sesiynau wedi'u gwella gan dechnoleg sy'n defnyddio realiti rhithwir a deallusrwydd artiffisial (AI) yn cefnogi datblygu medrau, iechyd meddwl a pharodrwydd ar gyfer senarios bywyd go iawn ymhellach.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl ifanc y mae tlodi yn effeithio arnynt trwy fannau cynnes, dosbarthu bwyd a darpariaeth hylendid hanfodol. Mae hefyd yn hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru trwy weithgareddau â thema, clybiau ieuenctid a theithiau, gan gefnogi dwyieithrwydd ar draws y continwwm.

Mae gweithwyr ieuenctid yn cynnig cefnogaeth ddwys i'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio, gan gynnwys gofalwyr ifanc, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a'r rhai sy'n profi osgoi ysgol ar sail emosiynau (EBSA). Mae gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion ac asiantaethau eraill yn sicrhau bod y bobl ifanc hyn yn cael cymorth cydlynol a chyson. Mae staff wedi'u hymwreiddio mewn lleoliadau ysgol ac yn chwarae rhan hollbwysig mewn gwella presenoldeb, ymddygiad a deilliannau.

Mae arweinyddiaeth strategol yn gryf ac mae ymrwymiad clir i lais a lles pobl ifanc. Mae'r Prif Swyddog Ieuenctid a Chymunedol (PYCO) yn arwain tîm angerddol sy'n meithrin diwylliant lle mae pobl ifanc yn ffynnu. Caiff llwyddiannau eu dathlu'n eang ac mae partneriaethau ag ysgolion, iechyd cyhoeddus a sefydliadau cymunedol yn ymestyn cyrhaeddiad ac effaith y gwasanaeth. Er bod arweinwyr yn cyfleu effaith eu gwaith ac yn defnyddio data a dulliau adrodd i lywio darpariaeth, yn aml, nid oes gan y prosesau hunanwerthuso y dyfnder angenrheidiol i sbarduno gwelliant strategol yn gyson. Mae integreiddio cyfyngedig rhwng arfer fyfyriol a dadansoddi data, sy'n golygu nad yw cyfleoedd i lywio cynllunio hirdymor yn cael eu gwireddu'n llawn.

Er bod gofynion gweithredol yn cyflwyno heriau, mae arweinwyr yn buddsoddi mewn cynllunio olyniaeth a datblygu staff. Mae diogelu yn gryfder clir, gyda systemau cadarn, hyfforddiant a diwylliant o ymddiriedaeth rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc. Mae dull hyblyg y gwasanaeth, sy'n cael ei arwain gan anghenion, yn sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi ac yn gallu llunio eu dyfodol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r gwasanaeth i barhau i wella, sef:

A1. Cryfhau prosesau hunanwerthuso trwy sicrhau integreiddio dyfnach rhwng arfer fyfyriol a dadansoddi data i lywio cynllunio strategol a chynorthwyo i rannu arfer effeithiol yn systematig ar draws timau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Sut mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial?

### Addysgol

Mae pobl ifanc yn elwa ar ystod eang o brofiadau dysgu pwrpasol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau bywyd ymarferol trwy weithgareddau difyr fel cyllidebu, bwyta'n iach a defnyddio ffriwyr aer.

Mewn clwb ieuenctid dwyieithog, mae pobl ifanc sy'n siarad Saesneg yn gwella eu dealltwriaeth o'r Gymraeg yn werthfawr. Mae staff yn siarad â nhw yn y Gymraeg yn ystod amrywiaeth o gemau a gweithgareddau fel helfeydd trysor, coginio a chrefftau. Mae llawer o bobl ifanc yn y grŵp yn dangos dealltwriaeth dda o'r iaith ac mae ychydig ohonynt yn sgwrsio'n ystyrlon yn y Gymraeg â staff ac ymwelwyr.

Mae darpariaeth dargedig yn cynnig cymorth buddiol i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o ymddieithrio. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau ystyrlon trwy lwybrau dysgu strwythuredig, achrededig sy'n arwain at gymwysterau perthnasol gan gynnwys hylendid bwyd, ymwybyddiaeth o awtistiaeth, cardiau cynllun ardystio sgiliau adeiladu (CSCS), a TGAU, sy'n eu cefnogi yn eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae dysgwyr addysg ddewisol yn y cartref yn manteisio ar ddosbarthiadau TGAU Saesneg, anogaeth un-i-un, cyngor gyrfaoedd a chymorth â cheisiadau coleg. Mae hyn yn cyfrannu at gynnydd cynaliadwy, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cynllunio i drosglwyddo i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae pobl ifanc yn ymgymryd â thasgau go iawn sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn. Er enghraifft, mae pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu ymddieithrio yn dysgu am dai a sut i fanteisio ar wasanaethau sy'n berthnasol i oedolion. Mae rhieni ifanc yn datblygu medrau magu plant a hunanofal sy'n gwella lles eu teulu yn uniongyrchol ac yn hybu mwy o annibyniaeth. Mae'r profiadau dysgu amrywiol hyn wedi'u hategu gan berthnasoedd cryf gweithwyr ieuenctid â phobl ifanc a'u gallu i deilwra sesiynau i anghenion unigol.

### Mynegiannol

Mae pobl ifanc yn mynegi eu hunain yn hyderus ar draws ystod o leoliadau i archwilio hunaniaeth, rhannu profiadau a chodi ymwybyddiaeth o faterion allweddol. Mewn un grŵp, cynhyrchodd pobl ifanc ôl-16 sy'n wynebu rhwystrau lluosog fideo yn amlygu balchder yn eu hardal leol, a buont yn archwilio agweddau ar wahaniaethu ac edrych ar

dwf personol. Siaradodd un dysgwr niwroamrywiol yn deimladwy yn y digwyddiad lansio ar gyfer y fideo hwn, gan dynnu sylw at effaith rymusol cael cyfle i fynegi eu barn.

### Ciplun: Cyfryngau digidol fel sbardun ar gyfer hyder, cynhwysiant a datblygu medrau

Mae pobl ifanc yn datblygu medrau gwerthfawr a hyder trwy ystod o brosiectau cyfryngau digidol difyr. Maent yn defnyddio technoleg yn effeithiol, gan gynnwys ffotograffiaeth drôn, animeiddio a gwneud ffilmiau, i ddarparu profiadau dysgu cynhwysol a grymusol sy'n eu helpu i gyflawni eu potensial.

Mae'r prosiectau creadigol hyn wedi arwain at gynhyrchu allbynnau ystyrlon o ansawdd uchel, fel fideo Sul y Cofio, cyfres o animeiddiadau pwerus sy'n mynd i'r afael â bwlio, hiliaeth a hunaniaeth rhywedd, a ffilm gymunedol. Mae'r prosiectau hyn yn arbennig o effeithiol o ran ennyn diddordeb pobl ifanc sydd fel arall yn anfodlon cymryd rhan, gan gynnwys llwybr amgen a mynegiannol i ddysgu a myfyrio.

Trwy'r gweithgareddau hyn, mae pobl ifanc yn ennill medrau ymarferol mewn gwaith camera, golygu, cyflwyno a chydweithio fel tîm. Maent hefyd yn datblygu llythrennedd emosiynol a hyder, gan ddefnyddio'r cyfryngau yn offeryn i archwilio hunaniaeth, herio rhagfarn a rhannu eu lleisiau â chynulleidfaoedd ehangach. Mae cyfranogwyr yn disgrifio sut mae'r profiadau hyn wedi gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi ac yn eu cymell mwy i fynd ar drywydd eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Mae trafodaethau myfyriol strwythuredig rhwng pobl ifanc a'u gweithwyr ieuenctid yn cynorthwyo i ddatblygu llythrennedd emosiynol a hyder. Mewn sesiwn cyfnewid cyrff trwy realiti rhithwir, mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn cyfweliadau ffug ar gyfer swyddi ac mewn gweithgareddau trafod. Yn ystod trafodaethau, maent yn mynegi eu hunain yn fywiog ac yn datblygu medrau sy'n eu galluogi i gyflwyno safbwyntiau gwrthwynebol mewn ffordd dawel a phwyllog pan gaiff gwrthddadleuon eu cyflwyno iddynt.

Mewn llawer o achosion, mae pobl ifanc yn dangos chwilfrydedd a dewrder cynyddol, gan gynnwys gofyn cwestiynau heb eu sgriptio yn ystod cyfweliadau neu herio rhagdybiaethau mewn trafodaethau grŵp.

## Cyfranogol

Mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn weithredol mewn llunio darpariaeth ar lefel gwasanaethau a sesiynau. Maent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn ymgynghoriadau, adolygiadau a gweithgareddau cynllunio, gan gynnwys byrddau graffiti, arolygon ac yn ystod digwyddiadau 'Cinio a Gwrando'.

### Ciplun: Llais ieuenctid yn sbarduno newid o ran fepio

Nododd aelodau'r cyngor ieuenctid fod fepio'n bryder cynyddol ymhlith eu cyfoedion a chymeront gamau i fynd i'r afael â'r mater. Mynegont eu pryderon yn uniongyrchol i arweinwyr yr awdurdod lleol yn ystod cyfarfodydd y cabinet, gan amlygu'r cynnydd mewn normaleiddio ac argaeledd fêps ymhlith pobl ifanc.

Er mwyn ymateb i hyn, cydweithiodd y cyngor ieuenctid â gweithwyr ieuenctid, gweithwyr proffesiynol iechyd a sefydliadau allanol fel Prifysgol Abertawe ac Ash Cymru i ddatblygu ymateb gwybodus. Roedd hyn yn cynnwys cyfrannu at gyflwyniad a luniwyd ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o fepio a'i risgiau, wedi'i lunio i'w gyflwyno ar draws ysgolion a lleoliadau ieuenctid. Aeth y cyflwyniad i'r afael â phryderon amgylcheddol a godwyd gan bobl ifanc hefyd, fel gwaredu fêps untro mewn ffordd amhriodol.

Arweiniodd eiriolaeth y cyngor ieuenctid at ddatblygu cynllun gweithredu amlasiantaeth a oedd yn cynnwys hyfforddiant i staff, addysg cyfoedion, ymgyrchoedd targedig a mentrau prynu prawf. Trwy eu cyfranogiad, sicrhaodd pobl ifanc fod y negeseuon a'r camau gweithredu wedi'u llunio gan lais pobl ifanc, gan olygu eu bod yn fwy perthnasol ac effeithiol i'w cyfoedion.

Mae cyfranogiad wedi'i ymwreiddio ar draws rhaglenni ieuenctid. Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin yn dewis eu gweithgareddau ac yn mesur eu cynnydd eu hunain trwy arolygon lles cyn ac ar ôl. Mae llawer o bobl ifanc yn dylanwadu ar amserlennu, cynnwys sesiynau ac, mewn un achos, brandio rhaglen Horizons, sy'n hybu perchnogaeth ac ymreolaeth.

Mae pobl ifanc hefyd yn dangos mwy o gyfrifoldeb personol ac arweinyddiaeth trwy ddysgu myfyriol, prosiectau annibynnol a gweithgarwch entrepreneuraidd. Er enghraifft, mae gan ddysgwr mewn grŵp crefftau addysg ddewisol yn y cartref fusnesau comisiynau digidol ac mae'n bwriadu datblygu hyn ymhellach â chefnogaeth gan weithwyr ieuenctid a Gyrfa Cymru. Mae unigolyn ifanc arall yn gweithio tuag at yrfa mewn plismona o ganlyniad i brofiadau personol â thrais domestig a'r gefnogaeth allgymorth a magu hyder barhaus a gafodd wedi hynny.

## Cynhwysol

Mae pobl ifanc yn dangos dealltwriaeth gref o hunaniaeth ddiwylliannol, gwahaniaeth cymdeithasol a nodweddion gwarchodedig trwy'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid. Maent yn dangos lefelau uchel o barch tuag at werthoedd, dewisiadau a phrofiadau bywyd ei gilydd, gan gyfrannu at ddiwylliannau grŵp cynhwysol sydd wedi'u seilio ar drugaredd a chyd-gefnogaeth.

Mewn sesiynau gwaith ieuenctid, mae pobl ifanc yn arddel amrywiaeth o ran iaith, cefndir a gallu. Mewn grŵp LHDTC+, mae pobl ifanc yn myfyrio'n agored ar eu profiadau yn yr ysgol a chynrychiolaeth y gymuned LHDTC+ ar raglenni teledu poblogaidd. Maent yn trafod digwyddiadau cyfoes a hanesyddol yn feirniadol, fel Adran 28 a therfysgoedd Stonewall. Mae'r sgyrsiau hyn yn dangos ymwybyddiaeth ddatblygedig o gydraddoldeb a chynhwysiant a sut mae'r gwerthoedd hyn yn berthnasol i'w bywydau bob dydd. Dylanwadodd pobl ifanc yn y grŵp hwn ar newid sylweddol i'r ffurflen caniatâd rhieni ar gyfer teithiau'r gwasanaeth ieuenctid hefyd, er mwyn sicrhau ei bod yn fwy sensitif i rywedd.

Mae pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyfranogi'n llawn mewn sesiynau. Mewn clwb iaith, lleferydd a chyfathrebu sydd wedi'i anelu at bobl ifanc ag ADY, mae ychydig o bobl ifanc yn mynegi brwdfrydedd i ymuno â'r cyngor ieuenctid o ganlyniad i'r hyder y maent wedi'i ddatblygu ers bod yn rhan o'r grŵp. Mewn grŵp rhieni ifanc, mae cyfranogwyr yn cydnabod yn agored yr angen am fwy o gefnogaeth i dadau ifanc ac yn eirioli dros ddarpariaeth fwy cynhwysol, gan gydnabod bod gwasanaethau presennol yn aml wedi'u teilwra'n fwy tuag at famau.

Trwy eu cyfranogiad mewn gwaith ieuenctid, mae pobl ifanc yn ymddwyn fel dinasyddion cynhwysol a gweithgar o Gymru. Maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori lleol, yn cyfrannu at ddatblygu strategaethau ac yn hybu tegwch yn eu cymunedau. Er enghraifft, datblygodd pobl ifanc siart llif atal digartrefedd sy'n addas ar gyfer pobl ifanc, y mae pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol y gwasanaeth ieuenctid yn ei defnyddio'n rheolaidd. Ar draws y gwasanaeth, mae cyfraniadau pobl ifanc yn helpu i lunio amgylcheddau cynhwysol lle caiff gwahaniaeth ei werthfawrogi a lle gall pawb gyfranogi'n llawn.

## Grymuso

Dywed llawer o bobl ifanc eu bod yn teimlo'n fwy cadarnhaol amdanyn nhw'u hunain a'u dyfodol o ganlyniad uniongyrchol i ymgysylltu â gwaith ieuenctid. Maent yn archwilio nodau personol, yn myfyrio ar eu cynnydd ac mae ganddynt yr hyder i fynegi eu barn a'u hanghenion. Mae pobl ifanc yn  dylanwadu ar ddylunio sesiynau, yn arwain prosiectau ac yn gwneud penderfyniadau sy'n llywio'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae enghreifftiau'n cynnwys pobl ifanc yn trafod cynnwys eu cynlluniau gweithredu, cyd-lunio byrddau ymgynghori sy'n cael eu harddangos mewn grwpiau ieuenctid a dylanwadu ar y modd y caiff addysg iechyd rhywiol ei chyflwyno. Mae cyfranogwyr yn dangos mwy o wydnwch, chwilfrydedd ac annibyniaeth ac mae llawer ohonynt yn myfyrio'n feddylgar ar sut bydd y medrau maent yn eu hennill yn eu helpu mewn addysg, cyflogaeth a bywyd.

Trwy gefnogaeth gyson, amgylcheddau diogel a gweithgareddau pwrpasol, mae pobl ifanc yn magu hyder ac yn cymryd mwy o reolaeth dros eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r effaith i'w gweld yn amlwg mewn teithiau unigol a chyflawniadau cyfunol ar draws y gwasanaeth.

## Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl o ddarpariaeth gwaith ieuenctid

Caiff cenhadaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i 'wella bywydau' ei hamlygu gan waith y gwasanaeth ieuenctid, sydd o fudd uniongyrchol i bobl ifanc a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Mae gweithwyr ieuenctid yn gweithio'n dda â phobl ifanc i gytuno ar natur arlwy'r ddarpariaeth. Maent yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf a chefnogol â nhw ac, o ganlyniad, caiff pobl ifanc wasanaeth teilwredig sydd wedi'i seilio ar eu hanghenion unigol.

Mae gweithwyr ieuenctid yn darparu gweithgareddau ysgogol ac amrywiol yn frwdfrydig, sy'n ennyn diddordeb pobl ifanc yn effeithiol. Er enghraifft, mae gofalwyr ifanc, gan gynnwys llawer o blant o oed ysgol gynradd, yn mynychu sesiynau poblogaidd gyda'r nos sy'n cynnig cyfleoedd braf i ryngweithio â chyfoedion, yn ogystal â seibiant gwerthfawr oddi wrth eu cyfrifoldebau gofalu. Mae llawer o bobl ifanc yn y sesiynau hyn yn elwa ar allu rhannu a thrafod y materion sy'n effeithio arnynt â gweithwyr ieuenctid ymroddedig, sydd â chymwysterau addas, mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Mae gweithwyr ieuenctid yn darparu cyfleoedd yn fedrus i bobl ifanc fynegi eu barn a chyfranogi'n gadarnhaol mewn sesiynau. Maent yn gweithio'n llwyddiannus i ymgysylltu â phobl ifanc sy'n ymddangos yn dawelach neu'n llai parod i gyfrannu er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn weithredol. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn magu hyder ac yn dysgu sut i gyfrannu at waith grŵp a pharchu barn pobl eraill.

Mae gweithwyr ieuenctid ac arweinwyr yn monitro, gwerthuso ac addasu rhaglenni yn briodol ac yn annog pobl ifanc i ddefnyddio eu medrau newydd yn eu bywyd bob dydd. Mae gweithwyr ieuenctid yn trafod cynnydd pobl ifanc sydd ag ADY gyda nhw ac yn cytuno ar ddiwygiadau, blaenoriaethau a thargedau. Mae'r cyd-lunio hwn yn helpu i ddatblygu perchnogaeth a chyfranogiad parhaus yr unigolyn ifanc.

Mae gweithwyr ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc ymhellach i bontio rhwng gwasanaethau, boed yn y gwasanaethau ieuenctid neu'n allanol. Mae cysylltiadau â sefydliadau partner mewnol ac allanol yn gryf ac yn sicrhau y caiff anghenion pobl ifanc eu bodloni'n briodol.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio'n effeithiol â sefydliadau partner ac ysgolion i ehangu'r arlwy i bobl ifanc. Er enghraifft, trwy gyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan Wobr Dug Caeredin, mae pobl ifanc yn elwa ar gyfleoedd cyffrous fel alldeithiau mewn lleoliadau fel Bannau Brycheiniog. Mae gweithwyr ieuenctid yn gweithio'n ddiwyd i gael gwared ar

rwystrau rhag cyfranogiad oherwydd anghenion dysgu ychwanegol, anabledd neu dlodi a sicrhau y gall pob unigolyn ifanc fanteisio arnynt.

Mae arweinwyr yn cynllunio darpariaeth yn ofalus i fodloni anghenion pob unigolyn ifanc ar sail angen a lleoliad daearyddol. Maent yn gweithio'n dda â chynrychiolwyr etholedig a phobl ifanc i ddatblygu darpariaeth newydd. Er enghraifft, sefydlodd y gwasanaeth glwb newydd yng Nghaewern ar ôl sylwadau gan gynghorydd lleol a phobl ifanc. Bu'r ddarpariaeth hon yn boblogaidd ac yn werthfawr i bobl ifanc yn y gymuned honno.

Yn ogystal, caiff gwaith ieuenctid ei gynnal mewn lleoliadau amrywiol a chynhwysol, gan gynnwys ymweliadau â'r cartref, canolfannau a lleoliadau cymunedol. Pan fo angen, mae'r gwasanaeth yn darparu cludiant i bobl ifanc i ddarpariaeth, fel clybiau ieuenctid gofalwyr ifanc a'r prosiect coginio yn Llansawel.

Mae gweithwyr ieuenctid yn cynnal sesiynau ar-lein, pan fo hynny'n briodol, er enghraifft wrth ddarparu cymorth unigol i bobl ifanc pan nad yw'n bosibl iddynt fynychu wyneb-yn-wyneb. Gall pobl ifanc fanteisio ar adnoddau'r clwb ieuenctid rhithwir hefyd, a ddatblygwyd gan bartner yn y sector preifat, sy'n cynnig arweiniad gwerthfawr sy'n eu helpu i wella eu medrau bywyd a'u lles.

Mae gweithwyr ieuenctid yn ymateb yn hyblyg i anghenion pobl ifanc ac yn meithrin perthynas â nhw trwy amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu, fel allgymorth datgysylltiedig mewn siopau bwyd brys poblogaidd neu lle mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau peryglus.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda â phobl ifanc a'r cyngor ieuenctid i roi barn pobl ifanc wrth wraidd yr arlwy gwaith ieuenctid. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi ac y gweithredir arnynt.

Mae gweithwyr ieuenctid yn hybu ffyrdd iach o fyw yn effeithiol trwy raglenni Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACaRh) sy'n cael eu cyflwyno mewn ysgolion i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc drafod materion personol trwy sesiynau galw heibio sy'n rhoi cyngor ar berthnasoedd mewn clybiau ieuenctid a cholegau, yn ogystal â darparu dulliau atal cenhedlu, profion beichiogrwydd a chymorth i fanteisio ar wasanaethau iechyd sy'n hanfodol i'w lles corfforol a meddyliol.

Mae gweithwyr ieuenctid yn greadigol wrth ddylunio dulliau i ymgysylltu â phobl ifanc, sy'n addysgu mewn ffordd gynnil a hwyliog, er enghraifft trwy hybu gwerth ymarfer corff a diet iach trwy ofyn i bobl ifanc bedalu beic statig sy'n pweru peiriant gwneud smwddis yn ystod digwyddiadau cymunedol.

### Ciplun: Realiti rhithwir hynod arloesol

Ym mhrosiect Horizons, mae gweithwyr ieuenctid yn gwella eu cymorth a'u hymyriadau yn effeithiol trwy integreiddio technegol deallusrwydd artiffisial (AI) a realiti rhithwir (VR) yn eu harfer. Mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn ymarferion rhyngweithiol, amrywiol trwy bensetiau VR. Maent yn cymryd rhan mewn cyfweliadau swyddi wedi'u hefelychu a sesiynau ymlacio dan arweiniad ac yn cymryd rhan mewn dadleuon sydd wedi'u llunio i fagu hyder wrth fynegi barn bersonol. Caiff y sesiynau hyn eu ffrydio i sgriniau allanol, gan alluogi gweithwyr ieuenctid i fonitro cynnydd mewn amser real a chynnig cymorth teilwredig. Mae hyn yn eu galluogi i gysylltu pob gweithgaredd ag elfennau penodol o gynlluniau gweithredu unigol pobl ifanc, gan feithrin dealltwriaeth a pherthnasedd dyfnach. Mae'r cyfranogwyr ifanc yn mynegi sut mae'r sesiynau hyn yn cynyddu eu hyder, yn eu helpu i baratoi ar gyfer sefyllfaoedd go iawn, fel cyfweliadau, ac yn darparu dulliau i reoli gorbryder yn fwy effeithiol. Mae cyfranogiad gweithredol staff wrth roi cyd-destun i'r profiadau yn allweddol i effaith y rhaglen ac mae'r bobl ifanc yn amlwg yn gwerthfawrogi'r dechnoleg a'r arweiniad personoledig.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio'n ddiwyd i liniaru effaith tlodi ar bobl ifanc trwy fentrau gwerthfawr iawn fel darparu mannau cynnes yn y gaeaf, dosbarthu bwyd am ddim a thalebau banc bwyd, yn ogystal â nwyddau hylendid personol.

Mae'r cynllun Bwyd a Hwyl mewn ysgolion yn cynnig sesiynau maeth gwerthfawr dros ben, yn ogystal â bwyd iach am ddim ac o leiaf awr o ymarfer corff y dydd yn ystod gwyliau'r haf. Mae hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar les corfforol llawer o bobl ifanc ac yn cynnal cysylltiad rhwng gweithwyr proffesiynol addysg a phobl ifanc fregus.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n greadigol i ddarparu gweithgareddau sy'n dathlu treftadaeth ieithyddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cynnig cyfleoedd rhagweithiol i bobl ifanc, lle bynnag y bônt ar y continwwm iaith, i ddatblygu eu medrau Cymraeg a deall manteision dwyieithrwydd.

### Ciplun: Y Gymraeg

Mae gwasanaeth ieuenctid Castell-nedd Port Talbot wedi mabwysiadu dull rhagweithiol o gysylltu gwaith ieuenctid â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod i hybu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg. Er enghraifft, mae'n ofynnol i bob clwb ieuenctid ddarparu gweithgaredd ar thema'r Gymraeg neu ddiwylliant Cymru bob mis. Mae gweithwyr ieuenctid yn cynnal gweithgareddau hyrwyddo hynod ddifyr yn ystod digwyddiadau cymunedol i hybu gwerth dwyieithrwydd.

Mae'r gwasanaeth yn cydweithio'n effeithiol â'r fenter iaith leol, sef Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot. Mae mentrau ar y cyd yn cynnwys:

- cynorthwyo ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i sefydlu clybiau ieuenctid amser cinio cyfrwng Cymraeg
- trefnu teithiau i Langrannog, lle gall pobl ifanc ennill achrediad yn y Gymraeg ac arferion trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg
- cynnig cyrsiau cymorth cyntaf trwy gyfrwng y Gymraeg
- cynnal un clwb ieuenctid dwyieithog ym Mhontardawe a chlwb ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn Trebanos  fel rhan o'r cynnig mynediad agored y gwasanaeth

O ganlyniad, mae darpariaeth a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o'r arlwy gwaith ieuenctid prif ffrwd.

Mae'r gwasanaeth yn targedu cymorth yn effeithiol, trwy gydol y flwyddyn, ar gyfer pobl ifanc fregus, fel y rhai sydd ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu, gofalwyr ifanc a phobl ifanc sy'n uniaethu fel LHDTC+.

Daw'r bobl ifanc hyn yn eiriolwyr hyderus drostyn nhw'u hunain a phobl eraill. Enghraifft nodedig o hyd oedd pan argymhellodd sefydliad allanol gyfyngu aelodaeth y sesiynau LHDTC+ i bobl ifanc hyd at 18 oed. Roedd pobl ifanc yn y grŵp yn anghytuno â'r cynnig hwn ac fe wnaethant gydweithio â'r gwasanaeth i sicrhau y gallai'r rhai dros 18 oed barhau i fynychu fel gwirfoddolwyr. Roedd hyn, yn ei dro, o fudd i'r bobl ifanc hynny a ddatblygodd eu medrau gwaith ac ymarferol a chynnal perthnasoedd gwerthfawr rhwng aelodau o oedrannau gwahanol a oedd yn mynychu'r grŵp.

Mae rhaglen Horizons yn datblygu medrau personol a medrau bywyd pobl ifanc yn llwyddiannus. Caiff pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg neu waith, neu sydd wedi ymddieithrio ohonynt, eu cynorthwyo'n fedrus gan weithwyr ieuenctid i ailymgysylltu, goresgyn y rhwystrau y maent yn eu hwynebu a dod yn aelodau gweithredol o gymdeithas ac ennill cyfleoedd hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae gweithwyr ieuenctid hefyd yn cynnig ymyriadau i bobl ifanc digwmni sy'n ceisio lloches ac yn cefnogi teuluoedd ethnig lleiafrifol yn y ganolfan groeso. Yn ogystal,

gweithiodd y gwasanaeth ieuenctid yn dosturiol â'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Wcrain i gefnogi cyflogaeth cynorthwywyr addysgu o Wcrain sydd, yn eu tro, yn cefnogi teuluoedd o Wcrain i fanteisio ar ofal iechyd a chyflogaeth. Cydnabuwyd bod gweithio â phobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn faes i'r gwasanaeth ieuenctid dyfu yn sgil y galw cynyddol yng Nghastell-nedd Port Talbot.

### Ciplun: Gwaith Legacy mewn ysgolion

Mae tîm Legacy yn cydweithio ag ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot i gynnig cymorth i bobl ifanc ym Mlwyddyn 11. Caiff pobl ifanc eu hatgyfeirio trwy offeryn adnabod cynnar sy'n helpu i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant neu sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref.

Mae'r cymorth i'r bobl ifanc hyn yn ddwys ac yn mynd y tu hwnt i furiau'r ysgol. Ar gyfer pobl ifanc sy'n cael trafferth ymgysylltu â'r ysgol, mae gweithwyr ieuenctid yn cyfarfod â nhw yn y gymuned ac yn eu cartrefi, gan gydweithio â'r teuluoedd a brocera cymorth proffesiynol ehangach. Mae'r cymorth teilwredig hwn ar gyfer unigolion sy'n osgoi'r ysgol ar sail emosiynau (EBSA) wedi arwain at ychydig o bobl ifanc yn ailymgysylltu â'r ysgol, yn sefyll arholiadau nad oeddent wedi meddwl y byddent erioed yn eu sefyll, a chymorth cam-wrth-gam i bobl ifanc bontio i addysg bellach y tu hwnt i Flwyddyn 11.

Roedd un pennaeth yn priodoli cynnydd mewn presenoldeb a chyrhaeddiad i gyfraniadau'r gweithiwr Legacy yn yr ysgol, ynghyd â lleihau gwaharddiadau parhaol a helpu ag ymddygiad cyffredinol pobl ifanc ar draws yr ysgol. Caiff y gweithiwr ieuenctid ei ystyried yn aelod staff sydd wedi'i ymwreiddio yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydnabod sut mae ymagwedd gwaith ieuenctid yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at bobl ifanc yn yr amgylchedd ysgol. Heb gymorth gwaith ieuenctid, ni fyddent yn gallu darparu'r adnodd yn yr ysgol.

## Arwain a gwella

Mae'r Prif Swyddog Ieuenctid a Chymunedol yn arwain y tîm gwasanaeth ieuenctid mawr a dynamig hwn yn effeithiol, wedi'i ysgogi gan angerdd i wella bywydau pobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn pennu'r diwylliant a'r ethos ar gyfer staff sydd, yn eu tro, yn angerddol dros ben am eu gwaith.

Mae pobl ifanc wrth wraidd popeth y mae'r gwasanaeth ieuenctid yn ei wneud ac mae hyn yn amlwg iawn yn y rôl y mae'r cyngor ieuenctid yn ei chwarae. Mae llais pobl ifanc yn rhan annatod o lywodraethu Castell-nedd Port Talbot, lle gall y cyngor ieuenctid ddwyn uwch swyddogion ac aelodau etholedig i gyfrif. Caiff llwyddiant pobl ifanc ei ddathlu'n frwd, fel trwy ddathliadau lleol mewn digwyddiadau clybiau ieuenctid, seremonïau gwobrwyo â'r uchel siryf ac ymweliadau â Phalas Buckingham wrth dderbyn Gwobrau Aur Dug Caeredin.

Caiff llwyddiant ei rannu â chynulleidfa ehangach hefyd trwy gylchgrawn 'Ieuenctid CnPT', sy'n cael ei lunio gan bobl ifanc i bobl ifanc.

Mae ymrwymiad clir o gymorth gan uwch arweinwyr ac aelodau etholedig, sy'n gwella statws a chyfeiriad y gwasanaeth ieuenctid. Caiff arweinwyr eu herio'n rheolaidd trwy'r pwyllgor craffu priodol o aelodau etholedig er mwyn sicrhau atebolrwydd. Caiff y gwasanaeth ieuenctid ei gefnogi hefyd gan aelodau etholedig, sy'n cadw mewn cysylltiad ag arfer o ddydd i ddydd ac yn tynnu sylw at newyddion da trwy eu blog lleol.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi'i integreiddio'n llawn yn y gyfarwyddiaeth addysg ac mae'n cysylltu'n effeithiol â'r gwasanaethau oddi mewn iddi. Mae hyn wedi helpu i greu partneriaethau rhagorol â'r ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae arweinwyr ysgolion yn cydnabod ac yn deall gwerth gwaith ieuenctid i'w disgyblion, sy'n arwain at bartneriaeth gydweithredol sydd o fudd i bobl ifanc.

Mae gwaith partneriaeth cryf ag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Cyfiawnder Ieuenctid, Dysgu Oedolion yn y Gymuned, yr heddlu a sefydliadau trydydd parti eraill. Mae sefydliadau partner yn disgrifio'r cydweithio effeithiol â'r gwasanaeth ieuenctid yn gyson. Mae arweinwyr yn y gwasanaeth ieuenctid yn chwarae rôl ganolog mewn strwythurau cynllunio ac adolygu ar y cyd, gan gynnwys paneli ymyrraeth gynnar, cyfarfodydd amlasiantaeth ac adolygiadau atgyfeirio ar y cyd. Er enghraifft, mae arweinwyr tîm y gwasanaeth ieuenctid yn gyfranogwyr allweddol yn y grŵp amlasiantaeth Cymorth Ieuenctid, sef rhwydwaith o dros 40 o sefydliadau sy'n cydlynu cymorth ac atgyfeiriadau i bobl ifanc.

Mae gwaith amlasiantaeth cryf a chydlynus yn cefnogi pobl ifanc yn dda, gyda llwythi achosion a rennir a chyfathrebu da. Mae cynllunio strategol wedi arwain at gyllid a datblygu partneriaethau llwyddiannus, gan ehangu llwybrau addysgol, gan gynnwys ar gyfer pobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Enghraifft arall o hyn yw lle mae arweinwyr sy'n cefnogi'r cyngor ieuenctid, mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi cyd-lunio a chomisiynu prosiect i gyflwyno deg o weithdai diwrnod llawn ar gydsyniad, perthnasoedd iach ac addysg iechyd rhywiol ar draws ysgolion lleol, gan arwain at allu manteisio'n well ar ddarpariaeth berthnasol sy'n cael ei llywio gan bobl ifanc a chryfhau llais pobl ifanc wrth lunio blaenoriaethau iechyd cyhoeddus.

Caiff diogelu ei flaenoriaethu gan arweinwyr, gyda systemau clir, hyfforddiant parhaus a monitro strwythuredig. Mae staff yn dilyn gweithdrefnau diogelu ac yn gwybod sut i godi pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant a gweithredu'n briodol ar faterion sy'n cael eu codi gan bobl ifanc. Mae staff yn elwa ar ystod eang o hyfforddiant priodol, sy'n eu harfogi yn eu hymgyrch i gadw pobl ifanc yn ddiogel. Dywed pobl ifanc eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu lleoliad gwaith ieuenctid.

Mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad strategol cryf i ddiogelu trwy gyfranogi'n weithredol mewn fforymau amlasiantaeth allweddol sy'n canolbwyntio ar ddiogelu pobl ifanc. Mae'r ymgysylltiad hwn yn sicrhau y caiff gwaith ieuenctid ei wreiddio mewn strwythurau diogelu ehangach. Mae arweinwyr yn cefnogi staff trwy waith achos cymhleth a chaiff y gweithwyr ieuenctid hyn eu cydnabod yn oedolion dibynadwy gan bobl ifanc, sy'n chwarae rhan hollbwysig ar y rheng flaen yn y rhwydweithiau hyn. Mae gallu'r gwasanaeth i adleoli staff mewn modd ymatebol i fannau problemus a nodwyd, fel canol tref Castell-nedd er mwyn ymateb i weithgarwch gangiau, yn dangos ymagwedd hyblyg sydd wedi'i harwain gan anghenion. Mae cydweithio strategol â phartneriaid, fel RNLI a *Be Safe*, yn gwella gallu'r gwasanaeth ymhellach i ddiogelu pobl ifanc yn effeithiol ar draws ystod o gyd-destunau.

Er bod arweinwyr yn cyfleu effaith eu gwaith yn effeithiol ac yn defnyddio data a dulliau adrodd i lywio darpariaeth, yn aml, nid yw prosesau hunanwerthuso'n ddigon dwfn i ysgogi gwelliant strategol yn gyson. Mae integreiddio cyfyngedig rhwng arfer fyfyriol a dadansoddi data, sy'n golygu nad yw cyfleoedd i lywio cynllunio hirdymor yn cael eu gwireddu'n llawn. Er bod y cyfarfod gwasanaeth cyfan blynyddol yn cynnig llwyfan i staff gydweithio â'i gilydd, mae gofynion gweithredol uchel o ran darparu'r gwasanaeth ieuenctid o ddydd i ddydd yn cyfyngu ar y gallu i fyfyrio'n barhaus a rhannu arfer effeithiol ar draws timau. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i ddysgu ar y cyd ac ymgorffori gwelliannau mewn modd systematig.

Mae'r gwasanaeth yn ymatebol i anghenion pobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot ac mae galw cynyddol am ddarpariaeth bellach. Mae'r Prif Swyddog Ieuenctid a Chymunedol yn ymdrin yn dda â'r gofynion gweithredol hyn, gan edrych ar gyfleoedd i gynyddu capasiti. Mae'r gofynion gweithredol yn effeithio ar ffocws strategol ac mae'r Prif Swyddog Ieuenctid a Chymunedol yn mynd â'r afael â hyn trwy gynllunio olyniaeth. Yn rhan o becyn cymorth cynllunio olyniaeth y Gwasanaeth Ieuenctid, nodwyd cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth, er enghraifft lle mae arweinwyr timau'n mynychu cyfarfodydd rheoli erbyn hyn er mwyn ennill profiad strategol.

Mae prosesau gwerthuso priodol ar waith ar gyfer staff amser llawn a rhan-amser, a gynhelir yn flynyddol. Caiff staff sydd â llwythi achosion adolygiadau llwyth achosion rheolaidd â'u rheolwr llinell er mwyn sicrhau y cânt eu cefnogi'n ddigonol â rhywfaint o'r gwaith mwy cymhleth y maent yn ymgymryd ag ef. Dywed staff eu bod yn cael profiadau goruchwylio gwahanol, gan amlygu rhai anghysondebau â'r broses hon. Mae'r Prif Swyddog Ieuenctid a Chymunedol yn gweithredu polisi drws agored, gan sicrhau ei fod ar gael i'r holl staff. Oherwydd natur ddwys y gwaith â phobl ifanc, caiff lles staff ei gefnogi ymhellach trwy allu manteisio ar gwnsler sydd ar gael yn ôl y galw.

Gall staff fanteisio ar raglen eang o ddysgu proffesiynol, gyda hyfforddiant teilwredig ar gyfer gweithwyr ieuenctid sydd wedi'i seilio ar angen, a nodwyd trwy werthusiadau. Gall

staff fanteisio ar hyfforddiant gorfodol ac achrededig, ac mae disgwyliad cytundebol iddynt gwblhau cymwysterau gwaith ieuenctid hyd at o leiaf lefel 3 i gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Mae’r pwyslais hwn ar uwchsgilio staff hyd at o leiaf lefel 3 yn dangos uchelgais arweinwyr i sicrhau bod ganddynt weithlu â chymwysterau proffesiynol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi'r canlyniadau o'r holiaduron i bobl ifanc, ac yn ystyried barn pobl ifanc, staff, a phartneriaid, lle bo'n briodol, trwy'r ymatebion i'r holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod â'r prif swyddog ieuenctid / y prif weithredwr, y bwrdd ymddiriedolwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol, staff gwaith ieuenctid unigol, a gwirfoddolwyr i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â phobl ifanc i drafod eu darpariaeth, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau gwaith ieuenctid, gan gynnwys clybiau ieuenctid, gwaith datgysylltiedig ar y stryd a gweithgareddau yn yr ysgol ar draws y ddarpariaeth, lle bo'n briodol
- yn arsylwi pobl ifanc, ac yn siarad â nhw yn ystod sesiynau darpariaeth
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn craffu ar ystod eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gyfranogiad a deilliannau dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu pobl ifanc, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o bobl ifanc…'* neu *'ychydig iawn o bobl ifanc…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru).

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2025